# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**
Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Mai 2018
Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod (09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 7

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 11)

Alison Thomas, Swyddog Cysylltiadau Cyflogeion, Ffatri Foduron Pen-y-bont ar Ogwr, Ford

Vicki Spencer-Francis, Rheolwr Gyfarwyddwr a Sylfaenydd, Cowshed

Alex Currie, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Go Compare

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4 a 6 o'r cyfarfod heddiw, ac o'r cyfarfod ar 17 Mai 2018

Egwyl (10.30 - 10.45)

## 4 Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol - trafod dull gweithredu'r ymchwiliad

(10.45 - 11.30) (Tudalennau 12 - 19)

## 5 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 8

(11.30 - 12.30) (Tudalennau 20 - 30)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Marcella Maxwell, Pennaeth Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Llywodraeth Cymru
Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

## 6 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2 a 5

(12.30 - 12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG –**
**BEICHIOGRWYDD, MAMOLAETH A GWAITH YNG NGHYMRU**

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar eu hymchwiliad i *Feichiogrwydd, Mamolaeth a Gwaith yng Nghymru*. Cydnabyddwn fod ffocws penodol yr ymchwiliad ar feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith. Mae'r cynnwys a ddarperir ar hyn o bryd yn cyflwyno trosolwg cyffredinol o raglenni a strategaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar y meysydd hyn.

**Ffyniant i Bawb**

2. Rydym am gael economi Gymreig sy'n sicrhau ffyniant cenedlaethol gan ledaenu cyfle a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar yr un pryd. O ganlyniad, gall pobl gyflawni eu huchelgais a chyfoethogi eu lles mewn cyflogaeth gynaliadwy a diogel. Un o orchwylion sylfaenol llywodraeth yw dileu'r rhwystrau mae llawer yn eu hwynebu wrth chwilio am swydd, a chreu'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu.

3. Rydym am hyrwyddo gwaith teg, hybu twf cynaliadwy a sicrhau hawl pob gweithiwr i fargen deg. Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i wneud Cymru yn genedl deg o ran gwaith, gan adeiladu ar waith ein Comisiwn Gwaith Teg a sicrhau ymrwymiad i gyflogaeth foesegol gan bob busnes sy'n cyflenwi'r gwasanaeth cyhoeddus.

4. Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial gan allu cyfrannu'n llawn i'r economi, yn anorfod yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus a blaengar. Felly mae'n hanfodol y gall pob menyw gyflawni a ffynnu.

5. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â phobl o'r grwpiau gwarchodedig, a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant, fel bod gan bawb y cyfle i ddyheu, cyflawni a ffynnu.

6. Credwn fod agwedd gydgysylltiedig o ymdrin â'r materion hyn yn hanfodol. Gan fod ein cymdeithas yn parhau i fod yn seiliedig ar arferion sy'n dangos tuedd o ran y rhywiau, rydym ni'n herio stereoteipiau rhyw, gan annog merched a menywod i ddilyn gyrfaoedd anhraddodiadol sy'n talu cyflog uwch. Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais ar sail beichiogrwydd a mamolaeth fel rhan o raglen waith ehangach o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn ein cymdeithas.

**Cynllun Gweithredu ar yr Economi**

7. Er mwyn cefnogi Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, a darparu mwy o fanylion ar sut y byddwn yn rhoi ein hymrwymiadau ar waith, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn Rhagfyr 2017.

8. Mae'r Cynllun yn eang ac mae'n bwrw golwg traws-Lywodraeth. Mae'n defnyddio ein hysgogwyr ar draws y Llywodraeth i dyfu ein heconomi, lledaenu cyfle a hyrwyddo llesiant. Mae'n hyrwyddo'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae'n pennu amrywiaeth o gynigion uchelgeisiol sy'n ymrwymo'r

Llywodraeth i newid mawr o ran cyfeiriad polisi mewn nifer o feysydd allweddol, sydd wedi'u trefnu o gwmpas diben cyffredin i weithio gyda busnesau ac eraill i ddatblygu cydnerthedd a diogelu economi Cymru at y dyfodol.

9. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cyflawni yn erbyn y ddau nod o dwf a llesiant cynhwysol. Pobl Cymru yw canolbwynt ei ffocws ac mae'n nodi'r dull y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi pobl i fyw bywydau diogel, iach a gwerth chweil gan feithrin yr amodau busnes ac economaidd er mwyn i hynny ddigwydd.

10. Mae'r Cynllun yn cydnabod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael lle neu gamu ymlaen ym myd gwaith, a'r pwysigrwydd o roi i bawb y sgiliau cywir, y cyfleoedd a'r seilwaith cysylltiol i gael gafael ar y cyfleoedd hynny. Gwyddom fod y materion hyn yn hynod bwysig i famau sy'n gweithio ac i famau sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith.

11. Hefyd, drwy'r Contract Economaidd byddwn yn annog arferion busnes tecach a mwy cyfrifol sy'n cyflawni yn erbyn ein huchelgais o fuddsoddiad cyhoeddus a diben cymdeithasol. Ymhellach, mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd rôl economaidd a chymdeithasol bwysig sectorau sylfaenol megis gofal, twristiaeth, bwyd ac adwerthu. Mae'r meysydd adwerthu a gofal yn benodol yn cyflogi cyfran sylweddol uwch o fenywod a fydd yn elwa ar ein hagwedd newydd o ran y sectorau hyn ac o ran profiad y gweithwyr sy'n gweithio ynddynt.

12. Yn ehangach, byddwn yn parhau i weithio gyda'r maes busnes i hyrwyddo cyfleoedd a chynyddu amlygrwydd gyrfaoedd i fenywod mewn diwydiannau lle mae dynion yn dominyddu, ac yn teilwra ymhellach ddarpariaeth gwasanaethau Busnes Cymru i adlewyrchu anghenion entrepreneuriaid benywaidd yn well.

**Busnes Cymru**

13. Gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru yw Busnes Cymru, a sefydlwyd i'w gwneud yn haws i fusnesau Cymreig ac entrepreneuriaid newydd gael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w galluogi i dyfu eu busnesau.

14. Mae Busnes Cymru'n darparu ystod o gyngor ac arweiniad i ficrofusnesau, BBaCh ac unigolion sy'n cychwyn busnes, gan gynnwys cyngor ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i'w cefnogi i addasu neu i wella strategaethau cydraddoldeb a chyngor cyffredinol ar bolisïau a gweithdrefnau AD. Mae gwybodaeth megis hawliau a dyletswyddau gweithio hyblyg, a pholisïau cysylltiedig ar gael ac yn cael eu hyrwyddo ar wefan Busnes Cymru yn **http://businesswales.gov.wales/cy** ac ar sianelau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig, yn ogystal â thrafodaethau wyneb yn wyneb â Busnes Cymru.

15. Targedir cymorth o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhagweithiol ar draws holl wasanaeth Busnes Cymru fel bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan allweddol o bob trafodaeth gyda'r holl gleientiaid.

16. Mae Busnes Cymru wedi blaenoriaethu mynediad agored trwy Wasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS). Mae'r Gwasanaeth yn darparu cyrsiau dysgu ar-lein ar alwad i helpu pobl i ddechrau tyfu busnes, ac mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan o nifer o fodiwlau'r Gwasanaeth.

17. Hefyd, rydym yn cynnig cyngor wedi'i deilwra a chyfres o offerynnau wedi'u cynllunio'n benodol i helpu unigolion sy'n awyddus i sefydlu busnesau megis meithrinfa neu crèche. Hefyd rydym yn cynnig yr un gwasanaeth i Fusnesau sy'n bodoli'n barod sy'n gobeithio datblygu ei busnesau gofal plant.

**Cefnogi'r Sector Gofal Plant**

18. Mae'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn tanlinellu pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned fusnes a hyrwyddo polisïau gofal plant sy'n ystyriol o deuluoedd fel rhan o'r strategaeth economaidd ehangach.

19. Mae Busnes Cymru yn cefnogi busnesau gofal plant ledled Cymru trwy ddarparu cefnogaeth a chyngor ar fusnes yn enwedig mewn ardaloedd lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynnig o 30 awr o ofal plant a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys rhywfaint o grant cychwynnol/ehangu i alluogi busnesau yn y sector i gynnig lleoedd gofal plant ychwanegol pan fo angen wedi'i nodi. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r grant cychwynnol/ehangu ar gyfer darparwyr gofal plant bron wedi'u cwblhau, a dylent fod ar waith yn y flwyddyn ariannol newydd. Gweinyddir hwy yn uniongyrchol gan Busnes Cymru a fydd yn fodd o gyflymu'r broses ymgeisio a phenderfynu.

20. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Addysg a Chyhoeddus ar gynnal asesiad o werth economaidd y sector gofal plant yng Nghymru. Cyflawnwyd yr asesiad ac mae canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu hystyried. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Ionawr 2018.

21. Cynhaliwyd digwyddiadau cymorth busnes i ddwyn ynghyd sefydliadau cymorth gofal plant sy'n rhan o Cwlwm, Busnes Cymru ac Awdurdodau Lleol i feithrin rhwydwaith cydweithredol er mwyn cefnogi'r sector yn well. Yn y digwyddiadau edrychwyd ar y cymorth busnes cyffredinol a ddarperir ar hyn o bryd gan fwriadu symleiddio'r gwasanaethau a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithlu deng mlynedd, darparu cyngor i fusnesau ar fanteision ac ymarferoldeb defnyddio polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd a sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen o ran cyngor ar fusnes.

22. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Swyddfa Symleiddio Treth sydd wedi datblygu pecyn ar-lein ar gyfer Cyfrifon Meithrinfeydd i helpu darparwyr gofal plant i wella rheolaeth ariannol eu busnesau. Darparwyd hyfforddiant i oddeutu 50 o gynghorwyr Busnes Cymru. Darparwyd 200 o drwyddedau i fusnesau ddefnyddio'r pecyn trwy Busnes Cymru.

23. Mae rhwydweithio agosach rhwng sefydliadau cefnogi gofal plant a Busnes Cymru'n cael eu datblygu, ac o ganlyniad mae mwy o ddarparwyr gofal plant yn cael cynnig cefnogaeth busnes wedi'i theilwra.

**Y Cynnig Gofal Plant i Gymru**

24. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni mewn gwaith i blant 3 ad 4 oed am hyd at 48 awr yr wythnos.

25. Mae'r cynnig yn adeiladu ar yr hawl cyffredinol cyfredol i addysg gynnar sy'n darparu i bob plentyn 3 a 4 oed leiafswm o 10 awr yr wythnos o addysg rhad ac am ddim yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor ar ôl iddynt droi'n dair oed. Yn ogystal â'r hawl cyffredinol, bydd rhieni mewn gwaith i blant cymwys 3 a 4 oed yn gymwys ar gyfer yr elfen o ofal plant o'r cynnig o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn tan y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd.

26. Mae ein cynnig wedi'i fwriadu ar gyfer rhieni mewn gwaith, a'r nod yw cefnogi economi Cymru trwy helpu rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu eu horiau gwaith. Yn aml bydd gofal plant yn rheswm a roddir dros y lle mae rhai rhieni'n gweithio, eu horiau gwaith neu pam nad ydynt yn gweithio o gwbl. Amcan y cynnig yw cydnabod y pwysau sydd ar rieni sy'n gweithio'n galed a rhoi cefnogaeth ariannol iddyn nhw i'w helpu gyda'r costau gofal plant a'u galluogi i wneud dewisiadau o ran cyflogaeth.

27. Hefyd, mae mwy a mwy o gydnabyddiaeth bod mwyafrif plant Cymru sydd mewn tlodi cymharol yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un person yn gweithio. Mae'r dystiolaeth yn glir mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r warchodaeth orau yn erbyn tlodi. Mae'r cynnig gofal plant yn un o gyfres o raglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith trwy gefnogi rhieni i allu cyflawni cyflogaeth lawn-amser a hwyluso rhieni i allu parhau mewn gwaith.

28. Ynghyd â gofal plant fforddiadwy, gall rhai rhieni fod angen cefnogaeth ychwanegol i allu dychwelyd i'r gwaith a pharhau mewn cyflogaeth. Mae rhai o'r rhwystrau i gyflogaeth yn cynnwys sefydlogrwydd ariannol, amharodrwydd i ddefnyddio gofal plant ffurfiol a diffyg hyder rheini o ran dychwelyd i'r gwaith.

29. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn brosiect gwerth £13.5 miliwn a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau.

30. Mae PaCE yn targedu'r rhieni sy'n di-waith sy'n dweud mai gofal plant yw'r prif reswm pam nad ydyn nhw'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi neu waith. Hyd at ddiwedd Mawrth 2018, roedd y prosiect wedi ymgysylltu â 2883 o gyfranogwyr ac wedi cefnogi 896 i mewn i waith. Menywod yw dros 90% o'r cyfranogwyr.

**Y Bwrdd Gwaith Teg**

31. Sefydlwyd y Bwrdd Gwaith Teg i gynghori Llywodraeth Cymru ar sut i symud ymlaen i fod yn wlad gwaith teg. Rhan o'r ystyriaeth yn hyn o beth fyddai darparu enillion yr awr sicr a fyddai'n cynnwys sicrwydd incwm, enillion yr awr teg a sicr, cyfleoedd teg i gamu ymlaen â thâl, a mynediad at gyflog salwch a phensiynau i bob gweithiwr cyflogedig.

32. Mae cydraddoldeb rhywiol, ynghyd â hawliau dynol a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol yn un o amrywiaeth o faterion y byddai Llywodraeth Cymru am i'r Comisiwn Gwaith Teg ei ystyried pan gaiff ei sefydlu yn ddiweddarach eleni. Byddai hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â beichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth ac ymrwymiadau gofalu.

**Cyflogadwyedd**

33. Nod ein Cynllun Cyflogadwyedd yw mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd. Mae'n nodi sut y byddwn ni'n cefnogi pobl i feithrin sgiliau a hyder i ddarganfod a pharhau mewn gwaith. Hefyd, bydd yn sicrhau y gall cyflogwyr ddod o hyd i'r gweithlu angenrheidiol er mwyn i'w busnesau ffynnu.

34. Mae'r cynllun yn nodi pedwar prif faes:

- dull unigol o gefnogi cyflogadwyedd.
- cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio a chefnogi eu staff.
- ymateb i fylchau cyfredol ac arfaethedig mewn sgiliau.
- paratoi at newid gwirioneddol ym myd gwaith.

35. Mae'r cynllun yn cydnabod bod gan rai grwpiau, yn cynnwys menywod, ganlyniadau marchnad lafur gwannach a bod bwlch cyflog sylweddol rhwng y rhywiau yn parhau.

36. Rydym yn symleiddio'r dirwedd gyflogadwyedd trwy ddatblygu un pwynt mynediad ar gyfer cefnogaeth cyflogadwyedd. Lansir Porth Cyngor ar Gyflogadwyedd yn Chwefror 2019. Bydd yn darparu mynediad symlach i arweiniad gyrfaol a chyngor ar gyflogadwyedd; cymorth personol i nodi a goresgyn rhwystrau i gamu ymlaen i gyflogaeth ac atgyfeirio symlach i'r gefnogaeth gywir ar draws rhaglenni ac ymyriadau amrywiol.

37. Byddwn yn lansio rhaglen newydd Cymru'n Gweithio yn Ebrill 2019. Bydd Cymru'n Gweithio yn cefnogi pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau ac ennill sgiliau i gyflawni a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd da. Bydd Cymru'n Gweithio yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ymrwymiad Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru i ailffurfio cymorth cyflogadwyedd ac mae'n rhan bwysig o Gynllun Cyflogadwyedd y llywodraeth a lansiwyd ym mis Mawrth.

38. Bydd yn ofynnol i'r sefydliadau sy'n darparu ein rhaglenni ddangos ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysedd a chydraddoldeb, trwy ddata gweithlu ac amodau a thelerau hyblyg sy'n diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, yn

cynnwys menywod beichiog a'r sawl sydd ar famolaeth. Er mwyn annog gweithleoedd cynhwysol, byddwn yn monitro effaith ein polisïau ar grwpiau gwarchodedig. Ar hyn o bryd, rydym ni'n datblygu dulliau adrodd a monitro priodol a byddwn yn ystyried sut orau i gasglu data ar feichiogrwydd a mamolaeth. Rydym am i'n rhaglenni cyflogadwyedd fod yn hygyrch i bawb felly rydym ni'n cynnwys ystyriaeth o effaith ein rhaglenni ar y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig wrth gynllunio'r rhaglenni, a'u gweithredu a'u gwerthuso.

39. Rydym wedi ymrwymo i fonitro ein rhaglenni i sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac i archwilio effaith ein gweithredoedd ar fenywod. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid a chyflogwyr i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefelau uwch mewn sefydliadau a sectorau. Byddwn yn archwilio effaith beichiogrwydd a mamolaeth ar fenywod yn ystod eu gyrfaoedd ac yn gweithio gyda phartneriaid i bennu pa gamau pellach sydd eu hangen. Hefyd, byddwn yn monitro gwahaniaethau rhwng sectorau neu alwedigaethau.

40. Byddwn yn cymryd camau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yng Nghymru mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 14.8% ac mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi. Gallai arferion gweithio hyblyg fod o gymorth yn hyn o beth, yn enwedig pan fo menywod yn ysgwyddo cyfran fwy o gyfrifoldebau gofal plant ar ôl beichiogrwydd a mamolaeth. Byddwn yn parhau i annog cwmnïau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Byddwn yn cydweithio â busnesau a sefydliadau i annog rhagor o arferion gweithio hyblyg a hyrwyddo cyflogaeth gynhwysol yn enwedig yn ystod ymarferion recriwtio a dyrchafu.

41. Byddwn yn sicrhau bod menywod yn helpu i lenwi'r bylchau sgiliau yn yr economi yn enwedig trwy annog mwy o fenywod i ddilyn cyrsiau STEM. Bydd cydraddoldeb a thegwch yn cael y lle blaenaf yn ein gwaith. Mae gwahaniaeth o ran y rhywiau yn y rhai sy'n cael mynediad i gyfleoedd addysgol sy'n fwy addas i swyddi'r dyfodol megis cyrsiau STEM. Rydym ni'n ymwybodol bod hyn yn fater cymhleth ac astrus ac rydym ni'n benderfynol o weithredu. Byddwn yn annog ein sefydliadau addysgol i wneud rhagor i lywio menywod i gyrsiau sector blaenoriaeth. Os na welwn ni gynnydd real a chyflym, byddwn yn ystyried a oes angen cyflwyno targedau a chwotâu trwy ddulliau ariannu neu ysgogwyr eraill i wireddu newid arwyddocaol.

42. Byddwn hefyd yn ystyried ein ffigurau sylfaenol presennol ynghylch menywod mewn pynciau STEM, ac yn y gweithle, er mwyn ystyried mesurau a thargedau priodol a fydd yn sail i'n gwaith adrodd blynyddol.

<u>Sectorau STEM</u>

43. Mae ein sectorau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yn hanfodol i lwyddiant Cymru. Mae eu sefydliadau llawn gwybodaeth a'u pobl hynod fedrus yn gwneud cyfraniad mawr i arloesedd, twf economaidd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae perfformiad menywod yn rhagori ar berfformiad dynion ym maes addysg yn gyffredinol, ac yn fwy tebygol o gael gradd dda ond eto mae mwy ohonyn nhw'n dal i weithio mewn swyddi sy'n galw ar fedrusrwydd sy'n is na'u lefel

addysgol. Maen nhw'n sicr yn cael eu tangynrychioli yn y gweithlu STEM: mae hyn yn wastraff gwybodaeth a thalent.

44. Mae'r golled fwyaf o fenywod o faes STEM yn digwydd pan fyddan nhw'n cael plant. Mae Llywodraeth Cymru (Julie James AC Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip) yn cadeirio Bwrdd Menywod ym maes STEM sy'n cynnwys aelodau cynrychioliadol o'r meysydd academaidd, diwydiant a llywodraeth. Cylch gwaith y Bwrdd yw darparu cyfeiriad strategol a chyngor ar sut y dylai Llywodraeth Cymru arwain a chefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus. Mae'r adroddiad yn gwneud 33 o argymhellion ar gyfer llywodraeth, addysg a busnesau ar sut i wella addysg, recriwtio, parhad a dyrchafiad menywod a merched ym maes STEM.

45. Mae o leiaf 12 argymhelliad (mwy na thraean o'r holl argymhellion) sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion absenoldeb rhieni, cydbwysedd bwyd a gwaith a seibiannau gyrfaol ac un o'r ddau argymhelliad wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu mwy o ofal plant a chefnogaeth ychwanegol. Hefyd mae un o'r argymhellion yn ymwneud yn uniongyrchol ag annog busnesau i gefnogi ymgyrchoedd i ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, megis yr elfen ym mhrosiect 'Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi' (WAVE).

**Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-2020**

46. Fel rhan o'u cyllid Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn cefnogi agenda cgdraddoldeb Llywodraeth Cymru trwy gynrychioli safbwyntiau menywod a merched yng Nghymru i helpu i lywio polisïau cenedlaethol a thrwy hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ehangach o hawliau menywod a'r materion sy'n effeithio arnyn nhw.

47. Dyfarnwyd bron £360,000 i Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru trwy ein rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017–2020 i gyflawni rhaglen waith cydraddoldeb rhywiol.

48. Eu hamcanion yw:

- Cael dealltwriaeth ehangach o anghenion a phrofiadau menywod a merched yng Nghymru i helpu i lywio polisïau cenedlaethol
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau menywod a'r materion sy'n effeithio arnyn nhw a'u grymuso i wneud dewisiadau gwybodus
- Cynrychioli menywod a merched ar grwpiau rhanddeiliaid allweddol perthnasol Llywodraeth Cymru (yn cynnwys casglu a dosbarthu tystiolaeth ymchwil)
- Helpu i gyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy nodi a goresgyn rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad i fenywod.

**Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol**

49. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (8 Mawrth), cyhoeddodd y Prif Weinidog yr Adolygiad Cyflym o bolisïau Rhywedd a Chydraddoldeb er mwyn rhoi hwb newydd i'n gwaith yn y maes hwn. Dan gyfarwyddyd Arweinydd y Tîm byddwn yn bwrw golwg agos gyda Chwarae Teg a phartneriaid eraill ar yr adolygiad hwn. Bydd yr adolygiad yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gydraddoldeb rhywiol ac ystyried pa ymchwil pellach a chamau y gall fod eu hangen yn y maes hwn, yn cynnwys mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

50. Mae amodau'r adolygiad bellach wedi'u cwblhau a bydd dau ddigwyddiad rhanddeiliaid cychwynnol ar 26 Ebrill yn y De ac ar 3 Mai yn y Gogledd. Disgwylir i Gyfnod Cyntaf yr Adolygiad gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2018, gyda'r Ail Gyfnod yn dilyn tan haf 2019.

**Ymgyrch Gweithio Ymlaen**

51. Fel cyflogwr, yn ddiweddar ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgyrch Gweithio Ymlaen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan addo gwneud ein sefydliad y gorau y gall fod ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd.

52. Mae Gweithio Ymlaen yn ymgyrch ledled y wlad i wneud gweithleoedd y gorau y gallan nhw fod i fenywod beichiog a mamau newydd. Mae aelodaeth yn ddi-dâl ac mae'n agored i unrhyw sefydliad.

53. Mae aelodau yn helpu i hyrwyddo newid diwylliannol hirdymor trwy ymrwymo i 'addewid' sy'n gofyn am gamau gweithredu mewn o leiaf ddau o'r meysydd canlynol:

- Dangos arweiniad o'r brig i lawr
- Sicrhau hyder cyflogeion
- Hyfforddi a chefnogi rheolwyr llinell
- Cynnig arferion gwaith hyblyg

54. Mae mwy na 150 o sefydliadau ar draws Prydain yn aelodau o Gweithio Ymlaen yn cynnwys cyflogwyr mawr a bach o'r sector preifat a chyhoeddus.

**Meincnod Cyflogwr "Chwarae Teg" y sefydliad Chwarae Teg**

55. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i Chwarae Teg i hyrwyddo ei waith ar gydraddoldeb rhywiol, nid yn unig ymhlith y gweithlu ond mewn cymdeithas yn ehangach. Mae Chwarae Teg yn sefydliad i Gymru gyfan sy'n ymdrechu i ehangu rôl menywod yn economi Cymru.
56. Mae Chwarae Teg yn canolbwyntio'n benodol ar gyfraniad economaidd cynaliadwy menywod mewn meysydd megis cyflogaeth, sgiliau ac entrepreneuriaeth, yn cynnwys cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gweithio hyblyg a dewisiadau gyrfaol ac academaidd menywod ifanc a merched. Hefyd, maen nhw'n darparu cyngor a dadansoddiadau i Lywodraeth Cymru ar faterion megis gwahanu galwedigaethol,

parhad y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a thangynrychiolaeth menywod mewn swyddi uwch a rolau sy’n gwneud penderfyniadau.

57. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i feincnod Cyflogwyr Chwarae Teg y sefydliad Chwarae Teg, sy’n cefnogi sefydliadau i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle. Yn Rhagfyr 2017, lansiodd Chwarae Teg Feincnod Cyflogwyr Chwarae Teg - sy’n wasanaeth newydd i gefnogi cyflogwyr a sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a phreifat a’r trydydd sector i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn eu busnesau. Bydd sefydliadau sy’n tanysgrifio i’r gwasanaeth yn cael eu meincnodi o ran cydraddoldeb rhywiol yn eu sector a dyfernir un o bedair lefel iddynt o’r dyfarniad Cyflogwr Chwarae Teg.

**Anghydraddoldeb Cyflog rhwng y Rhywiau**

58. Nid dim ond mater i fenywod yw cyflog cyfartal; pan gaiff menywod gyflog cyfartal mae incwm eu teuluoedd yn codi ac mae’r teulu cyfan yn elwa.

59. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus cadarn i fynd i’r afael â gwahaniaethau mewn cyflogaeth a chyflog a gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn benodol. Cyflwynwyd hyn o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

60. Yn ogystal â’r ddyletswydd i gael amcan cydraddoldeb i fynd i’r afael â chyflogaeth neu wahaniaethau o ran cyflog, mae’n ofynnol ar gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru i adrodd yn flynyddol ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau a hefyd ar y dosbarthiad gwahanol o ddynion a menywod rhwng graddau, galwedigaethau, patrymau gweithio (llawn amser a rhan-amser) a mathau o gontractau (parhaol, rhan-amser/tymor penodol, achlysurol), sy’n galluogi i fylchau cyflog barhau.

61. Yn fuan bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth o’r gwaith a wnaed ar draws y sectorau allweddol i fodloni gofynion deddfwriaeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn cydweithio’n agos â hwy ar hyn ac ar unrhyw gamau pellach sy’n ofynnol o ganlyniad yn cynnwys adolygu’r trefniadau adrodd ar gyfer sefydliadau Cymru.

62. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy’n nodi bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau naill ai osod amcan cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau i fynd i’r afael â’r rheswm neu’r rhesymau am y gwahaniaeth cyflog neu egluro’n gyhoeddus pam nad ydyn nhw wedi gwneud hynny.

**Adrodd ar Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau gan Lywodraeth y DU**

<u>Sector Cyhoeddus</u>

63. Daeth rheoliadau Llywodraeth y DU ar adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y sector cyhoeddus i rym ar 31 Mawrth 2017. Mae’r rheoliadau’n gosod gofynion newydd ar gyrff sector cyhoeddus penodedig i gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â

bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn eu sefydliad os oes ganddyn nhw 250 neu fwy o gyflogeion yn eu sefydliad.

64. Yng Nghymru, mae ein gofynion o ran bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn berthnasol i gyrff cyhoeddus waeth faint o gyflogeion sydd ganddynt. Mae dyletswyddau Cymru'n eang, ac yn cwmpasu'r angen i ddeall y rhesymau dros wahaniaethau mewn cyflog ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae dyletswyddau Cymru hefyd yn gadarn gyda gofynion i ddadansoddi cyflog a gweithlu a chynllunio camau gweithredu, i fynd i'r afael â'r rhesymau dros fylchau cyflog rhwng y rhywiau.

<u>Sectorau Preifat a Gwirfoddol</u>

65. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno rheoliadau hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr mawr yn y sectorau preifat a gwirfoddol gyhoeddi gwybodaeth am gyflog yn ôl y rhywiau. Daeth y rheoliadau i rym ym mis Ebrill 2017. Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd yn yr un modd ag yn y sector cyhoeddus yn Lloegr ac yn berthnasol i gyflogwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sydd ag o leiaf 250 o gyflogeion.

**Dileu Gwahaniaethu ar sail Beichiogrwydd a mamolaeth yn Llywodraeth Cymru**

66. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb ac eraill i sicrhau nad yw menywod yn wynebu gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn i nodi ymyriadau effeithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd yr ymyriadau hyn yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb diwygiedig Llywodraeth Cymru.

67. Amcan 8 ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw y bydd Llywodraeth Cymru'n "anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020". Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu i ategu'r Amcan hwn er mwyn dangos sut y byddwn yn gweithio yn Llywodraeth Cymru i fod yr esiampl orau bosibl yn y maes hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig beichiogrwydd a mamolaeth.

68. Fel rhan o Ymgyrch Gweithio Ymlaen y Comisiwn Cydraddoldeb, rydym wedi addo i wneud ein sefydliad y gorau y gall fod i fenywod beichiog a mamau newydd. Rydym wedi newid ein prosesau fel y gall menywod sy'n gadael ar gyfnod mamolaeth gadw eu hoffer TG a'u proffil (os ydynt yn dymuno). Hefyd, rydym wedi sefydlu tudalen mewnrwyd safle tîm ar gyfer menywod beichiog a rhieni newydd - fel fforwm/rhwydwaith anffurfiol.

69. Mae'r rhwydwaith Menywod Ynghyd wedi sefydlu grŵp ffocws i nodi'r prif heriau sy'n wynebu menywod beichiog a rhieni newydd yn y sefydliad gan wneud argymhellion i'r adran AD. Mae'r rhwydwaith yn cydweithio'n agos â'r adran AD i adolygu polisïau a phrosesau ar gyfer staff beichiog a rhieni newydd (a fydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol gydag Ochr yr Undebau Llafur) ac maent wedi

archwilio'r cyfleusterau bwydo ar y fron a thynnu llaeth ar draws ein hystâd. Bellach mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod yr un cyfleusterau da ar gael ar draws y swyddfeydd i gyd. Bydd canllawiau ar gyfer rheolwyr llinell yn cael eu drafftio a'r deunydd ar gyfer y rhai sydd ar seibiant mamolaeth/mabwysiadu/rhieni yn cael ei wella. Mae bore coffi ar gyfer menywod ar seibiant mamolaeth i'w fynychu gyda'u babanod yn cael ei drefnu ar hyn o bryd.